

**Cofnodion Cyfarfod Arbennig Cyngor Cymuned Llanfair yn Neubwll  
a gynhelir o bell am 6.30pm ddydd Iau 27 Mehefin 2024.**

**PRESENNOL:** Cyng. Celfyn Furlong - Cadeirydd

**Cynghorwyr:** Siân Enfys Jones, Wyn Robertson, Einir Thomas a Gareth Thomas.

Hefyd yn bresennol: Mai Owen - Clerc / Swyddog Cyllid Cyfrifol

1. **Ymddiheuriadau:** – dim.
2. **Datganiad o ddiddordeb:** – dim.

3. **Cyfrifon Terfynol 2023/24**

Eglurodd y Clerc / SCC mai pwrpas y cyfarfod oedd ystyried cyfrifon 2023/24 cyn y dyddiad cau ar 30 Mehefin 2024.

Dosbarthwyd copi o'r Ffurflen Flynyddol ac adroddiad yr Archwilydd Mewnol i'r Aelodau cyn y cyfarfod. Cadarnhaodd adroddiad yr Archwilydd Mewnol fod y cyfrifon mewn trefn ac nad oedd argymhellion ar gyfer sylw'r Cyngor. Cytunwyd i dderbyn yr adroddiad (cynnig Cyng. Einir Thomas, eilio Cyng. Siân Enfys Jones) byddai'r Cadeirydd a'r SCC nawr yn cymeradwyo'r Ffurflen Flynyddol ac yn ei hanfon gyda'r dogfennau y gofynnwyd amdanynt i'r Archwilydd Allanol.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Clerc a'r Cyng. Dyfed Williams am eu gwaith yn paratoi a gwirio'r cyfrifon.

4. **Cyfarfod nesaf 16 Gorffennaf 2024**